**GRŴP GORCHWYL A GORFFEN CYD-WEINIDOGOL AR DDULL YSGOL GYFAN O HYBU IECHYD MEDDWL A LLESIANT**
**3 MEHEFIN 2019**

**Yn bresennol**

| Enw | Yn cynrychioli |
|---|---|
| Y Gweinidog Addysg | |
| Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Dr Dave Williams | Cynghorydd Seicoleg Plant Prif Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cymru |
| Dr Julie Bishop | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Joanna Jordan | Grwpiau Agored i Niwed ac Iechyd Meddwl, Llywodraeth Cymru |
| Simon Murphy | DECIPHer |
| Albert Heaney | Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru |
| Sally Holland | Comisiynydd Plant Cymru |
| Sarah Ellis | CCAC (dirprwy i Aled Evans) |
| Liz Gregory | Gwasanaethau Seicoleg |
| J-Anne Daniels | Plant a Theuluoedd, Llywodraeth Cymru |
| Y Cyng. Huw David | CLlLC |
| Charles Janczewski | Is-gadeiryddion Byrddau Iechyd Lleol |
| Tracey Breheny | Camddefnyddio Sylweddau, Llywodraeth Cymru |
| Lynne Neagle | Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg |
| Mark Campion | Estyn |
| Carol Shillabeer | Arweinydd Iechyd Meddwl Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol |
| Debbie Harteveld | Consortia Addysg Rhanbarthol |
| Dr Heather Payne | Uwch Swyddog Meddygol (Pediatreg), Llywodraeth Cymru |
| Karen Jewell | Dirprwy Brif Swyddog Nyrsio |
| Steve Davis | Cadeirydd, Grŵp Prif Swyddog Ieuenctid |
| Ruth Conway | Addysg, Llywodraeth Cymru |
| Chris Roberts | Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi |
| Jason Pollard | Ysgrifenyddiaeth |
| Clare van Bohemen Hunter | Ysgrifenyddiaeth |

**Ymddiheuriadau**

| Enw | Yn cynrychioli |
|---|---|
| Steve Davies | Adran Addysg |
| Andrew Jarret | Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Dr Elizabeth Davies | Uwch Swyddog Meddygol (Meddygon Teulu), Llywodraeth Cymru |
| Paula Vaughan | Ysgolion cynradd |
| Aled Evans | CCAC |

| | |
|---|---|
| Christopher Parry | Ysgolion Uwchradd |

Dechreuodd y cyfarfod am 11:38

**Eitem 1**

Croesawodd MfHSS y sawl a oedd yn bresennol a darllenodd yr ymddiheuriadau.

Adolygodd MfHSS y camau gweithredu blaenorol a'r agenda ar gyfer y cyfarfod hwn. Nododd y dylai papur mewngymorth CAMHS fod wedi'i lunio ar gyfer y cyfarfod hwn, ond roedd yn dal i gael ei baratoi.

**Cam Gweithredu 1: MfHSS ac MfE i ddosbarthu'r papur CAMHS pan fydd wedi'i gwblhau i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r grŵp hwn.**

**Cam Gweithredu 2: Cynlluniau mewngymorth CAMHS i gael eu cynnwys fel eitem ar yr agenda yn y cyfarfod ym mis Hydref.**

Cytunodd y Grŵp i gam gweithredu 8 o fis Mawrth gael ei gario drosodd i'r cyfarfod nesaf (Hydref 2019) gan nad oedd Aled Evans yn bresennol. Pwysleisiodd LN fod holiadur CCAC yn bwysig er mwyn gweld pa raglenni oedd yn cael eu defnyddio mewn ysgolion, yn ogystal ag asesu pa rai oedd yn effeithiol. Nododd SE fod holiadur CCAC yn dod i ben yr wythnos nesaf ac y bydd adborth i'w gyflwyno yn y cyfarfod nesaf yn bendant.

**Eitem 2**

Cafodd MC ei wahodd gan MfE i gyflwyno diweddariad llafar ar waith Estyn ar iechyd meddwl a llesiant, gan nodi y bydd cylch gwaith Estyn ar gyfer 2019/2020 yn cynnwys adolygiad thematig pellach gan ganolbwyntio ar fentrau iechyd meddwl cyffredinol a rhai wedi'u targedu.

Nododd MC, yn ogystal â'r adroddiad hwn, y caiff adroddiad sy'n canolbwyntio ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ei gyhoeddi ym mis Medi 2019 a fydd o ddiddordeb i'r grŵp.

Cyflwynodd MC y gwaith y mae Estyn wedi bod yn ei wneud ar y dull ysgol gyfan, gan gadarnhau mai enw'r adroddiad yw *Iach a Hapus* ac y caiff ei ryddhau ar 12 Mehefin 2019. Rhoddodd MC grynodeb o brif ganfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad.

Gofynnodd MfE i'r grŵp a yw gwaith y grŵp hwn yn defnyddio canfyddiadau'r adroddiad, ac a oes unrhyw beth nad yw wedi'i gynnwys ar hyn o bryd.

Nododd LN bwysigrwydd hyfforddiant athrawon ac Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) er mwyn rhoi'r argymhellion yn yr adroddiad ar waith. Nododd LN ei bod yn drueni bod y broses achredu darparwyr AGA wedi dod i ben ac na ellid ei newid er

mwyn rhoi mwy o bwyslais ar iechyd meddwl a llesiant a gofynnodd sut y gallem fynd i'r afael â hyn.

Cytunodd MfE fod y broses achredu wedi dod i ben, ond bod dylanwadu ar y cynnwys a gynigir a'i addasu yn broses barhaus. Ychwanegodd RC er ei bod yn rhy hwyr i gynnwys unrhyw gynnwys ychwanegol yn y cyrsiau AGA sy'n dechrau ym mis Medi 2019, mai'r bwriad oedd y byddai cynnwys newydd yng nghwrs y flwyddyn ganlynol.

**Cam Gweithredu 3: AGA i gael ei gynnwys fel eitem ar yr agenda yng nghyfarfod mis Hydref.**

Gofynnodd SH a yw problemau mewn perthynas ag amgylcheddau ffisegol ysgolion yn cael eu hystyried yng ngwaith y grŵp hwn. Ymrwymodd MfE i ystyried sut mae'r gwaith ar amgylcheddau ffisegol ysgolion sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd yn ymwneud â gwaith y grŵp hwn, gan nodi bod arfer gorau yn y maes hwn yn cael ei drafod a'i fireinio o hyd.

**Cam Gweithredu 4: ystyried sut y caiff amgylcheddau ffisegol eu cynnwys yn rhaglen waith y dull ysgol gyfan.**

Gofynnodd CJ a yw'r hyfforddiant athrawon yn cynnwys datblygu arweinyddiaeth, ac a oes cynlluniau i annog ysgolion i gael rhaglenni sefydlu ffurfiol ar gyfer staff newydd sy'n cynnwys polisïau iechyd meddwl a llesiant.

Cadarnhaodd MfE fod gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â datblygu arweinyddiaeth ac iechyd meddwl, a bod yr Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol ar ei ail garfan o arweinwyr. Nododd MfE bwysigrwydd cynyddu cysylltiadau â gwaith ieuenctid a phrosesau dysgu o egwyddorion gwaith ieuenctid pan ddaw i feithrin cydberthnasau â phlant a phobl ifanc, a phwysleisiodd bwysigrwydd ailgysylltu ysgolion a gweithwyr ieuenctid.

Cytunodd SD a nododd, er y ceir rhai gweithwyr ieuenctid mewn ysgolion o hyd, y gofynnir iddynt ddelio â 'phroblemau annifyr' fel gwersi Addysg Rhyw a Pherthnasoedd neu wersi ar gamddefnyddio sylweddau, sydd y tu allan i'w cylch gwaith.

## <u>Eitem 3</u>

Cyflwynodd MfHSS JB i roi cyflwyniad ar feini prawf diwygiedig y Wobr Ansawdd Genedlaethol ac arolwg Amgylchedd yr Ysgol.

Esboniodd JB y broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn datblygu meini prawf newydd ar gyfer y Wobr Ansawdd Genedlaethol a pham eu bod wedi dewis canolbwyntio ar yr adran iechyd meddwl yn gyntaf. Nododd y gydberthynas gref rhwng iechyd meddwl staff a disgyblion a nodwyd yn flaenorol gan MC ac awgrymodd fod hwn yn ddarn o waith pwysig ar gyfer y rhaglen.

Croesawodd LN y ddau adroddiad a nododd fod hunanladdiad a hunan-niwed yn faterion taer yr oedd angen mynd i'r afael â nhw ar fyrder. Mae'r canllawiau gan

Lywodraeth Cymru ar fynd i'r afael â hunanladdiad a hunan-niwed wrthi'n cael eu cwblhau.

Nododd SM ei bod yn ddiddorol edrych ar y materion iechyd eraill yn yr arolwg o'r amgylchedd ar y cyd â'r materion iechyd meddwl, am eu bod i gyd yn rhyng-gysylltiedig e.e. amser cinio, dulliau adferol o fwlio.

**Cam Gweithredu 5: JB i ddosbarthu adroddiad llawn Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru**

Gofynnodd SH ac LN am fwy o eglurder ar y gydberthynas rhwng meini prawf y Wobr Ansawdd Genedlaethol a gwaith cyffredinol y grŵp hwn, a cheisio cael sicrwydd bod y rhaglen yn cymryd safbwynt cydgysylltiedig at y darnau amrywiol o waith.

Cododd CS p'un a oes angen cymryd dull strwythuredig at lesiant staff, a ph'un a ellid defnyddio enghreifftiau o arfer da o sectorau eraill fel ysbrydoliaeth. Dywedodd MC y caiff llesiant staff ei drafod yn adroddiad Estyn (eitem 2) a chytunodd JB fod llesiant staff yn elfen o'r Canllawiau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru, er nad yw bob amser yn cael digon o sylw.

Nododd SM fod canlyniadau astudiaeth dwy flynedd Llesiant mewn Addysg Uwchradd (WISE) o lesiant athrawon wedi'u creu yn ddiweddar ac y disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi maes o law, sy'n pwysleisio'r cysylltiad rhwng llesiant staff a disgyblion.

Rhoddodd MfE grynodeb o'r camau gweithredu posibl sy'n deillio o'r drafodaeth hon, yn cynnwys gwella llwyth gwaith athrawon, systemau AD gwell, sicrhau cymhwysedd athrawon a pharhau i ddatblygu arweinyddiaeth addysgol.

## <u>Eitem 4</u>

Cyflwynodd MfE ac MfHSS y fersiwn fwyaf newydd o'r cynllun gwaith i'w drafod.

Esboniodd yr ysgrifenyddiaeth fod y cynllun gwaith newydd bellach yn canolbwyntio mwy ar gynhyrchion, yn hytrach na phroses. Fframwaith ar gyfer ysgolion yw'r cynnyrch cyntaf, a fydd yn darparu proses o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer rhoi eu dull ysgol gyfan ar waith a'i werthuso. Mae'r camau gweithredu pellach yn 'gynhyrchion' ynddynt eu hunain, er eu bod hefyd yn elfennau annatod o'r fframwaith. Ni fwriedir i hyn orlwytho ysgolion a byddant yn gydgysylltiedig ac yn cysylltu gweithgarwch rhyngddibynnol â'i gilydd, fel fframwaith y Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru, pecyn cymorth hunanwerthuso Estyn a data'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion.

Ar hyn o bryd, mae llesiant athrawon yn cael ei gynnwys ochr yn ochr â llesiant myfyrwyr, ond gellir ei gynnwys mewn cam gweithredu ei hun, o ystyried y sgwrs ynghylch ei bwysigrwydd heddiw.

**Cam Gweithredu 6: creu cam gweithredu ar wahân yn y cynllun gwaith i fynd i'r afael â llesiant athrawon.**

Bydd y cynllun gwaith yn diffinio'r cynnig cyffredinol ac opsiynau ymyriad mwy penodol, yn cynnwys y rheini i fynd i'r afael â'r 'canol coll'. Mae Pecyn Cymorth Ymddiriedolaeth Sutton yn cael ei ystyried yn adnodd posibl i helpu ysgolion ag amrywiaeth o ymyriadau cymorth penodol. Er mai megis dechrau y mae'r trafodaethau, mae angen darn o waith i weld sut y gellir ei ddatblygu i fod yn benodol ar gyfer Cymru ac yn addas ar gyfer y rhaglen hon. Bydd swyddogion yn gweithio gyda grŵp o benaethiaid a staff y GIG i roi cymorth yn y gweithgarwch hwn.

Nid yw'r amgylchedd ffisegol wedi'i nodi yn y cynllun gwaith eto – mae angen darn o waith i weld sut y gellir integreiddio gwaith a wneir mewn meysydd eraill o'r byd Addysg ar amgylcheddau ffisegol ysgolion yng ngwaith y Grŵp.

**Cam gweithredu 7: asesu gwaith a wneir mewn meysydd eraill o'r byd Addysg ar amgylcheddau ffisegol ysgolion a sut y gellir ei integreiddio i waith y Grŵp.**

Rhoddodd CR gyflwyniad ar y model rhesymeg a'r dulliau o werthuso perfformiad y rhaglen. Fframwaith yw'r model rhesymeg i ddwyn ynghyd gydrannau data er mwyn asesu perfformiad y rhaglen. Mae'n rhoi tryloywder ynghylch yr hyn rydym yn ceisio ei gyflawni ar y rhaglen ac yn mesur cynnydd.

Ceisiodd LB eglurhad gan yr ysgrifenyddiaeth ynghylch y ffordd y mae Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru yn cyd-fynd â'r cynnig cyffredinol, a ph'un a fyddai Iechyd Cyhoeddus Cymru yn arwain y dull cyffredinol a Llywodraeth Cymru yn arwain y dull penodol.

Eglurodd yr ysgrifenyddiaeth fod meini prawf newydd Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru wedi cyflawni rhan o'r cynnig cyffredinol a'i system atebolrwydd, a'i bod yn bwysig iddo gyd-fynd â gwaith ehangach Llywodraeth Cymru ac y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

Pwysleisiodd LN pa mor bwysig ydyw i Lywodraeth Cymru hyrwyddo'r cynnig cyffredinol a sicrhau ei fod yn eang ac yn cynnwys elfennau a drafodwyd yn flaenorol fel Addysg Gychwynnol Athrawon a Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Hefyd, nododd LN bwysigrwydd llunio canllawiau i ysgolion ar hunanladdiad a hunan-niwed.

Gofynnodd CS a oedd unrhyw beth wedi cael ei dynnu allan o'r cynllun gwaith blaenorol a chadarnhaodd yr ysgrifenyddiaeth mai dim ond prosesau oedd wedi'u dileu, nid sylwedd. Holodd CS ynghylch camau penodol mewn perthynas â Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol Lleol, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a chwnsela ar-lein. Cadarnhaodd yr ysgrifenyddiaeth fod swyddogion mewn cysylltiad agos â chydweithwyr iechyd meddwl ar gyfer gwaith Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol Lleol, ac rydym yn ymgysylltu â Technoleg Iechyd Cymru i archwilio'r dechnoleg a datblygu canllawiau ar gyfer cwnsela ar-lein er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru.

Trafododd y Grŵp bwysigrwydd monitro canlyniadau academaidd, yn ogystal â chanlyniadau llesiant, a chadarnhaodd fod Cyswllt Diogel Gwybodaeth Dienw (SAIL) yn cysylltu data iechyd â data perfformiad, sy'n golygu y gellir eu monitro.

Ailadroddodd HD bwynt LD ynghylch canllawiau ar hunanladdiad a hunan-niwed, yn ogystal â'r hyfforddiant a'r adnoddau a fydd yn cyd-fynd ag ef. Ni ellir curo hyfforddiant wyneb yn wyneb, ac mae'n helpu i sicrhau ei fod ar agendâu timau arweinyddiaeth ysgolion. Cysylltodd HD hyn â phwysigrwydd atebolrwydd a mesurau perfformiad.

Cyfeiriodd MfE at gyflwyniad MC ac argymhelliad Estyn ar atebolrwydd a hunanasesu. Trafododd bwysigrwydd sicrhau bod disgwyliadau hunanwerthuso, cynghorwyr herio, Estyn a Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd.

Gofynnodd SH a oedd cynlluniau ar waith i newid mesurau perfformiad. Cadarnhaodd MfE fod gwerthusiadau dros dro ar waith wrth i'r system newid i hunanwerthuso. Mae gwerthusiadau dros dro yn cynnwys nifer o nodweddion er mwyn sicrhau y caiff pob plentyn ei gynrychioli yn y gwerthusiadau.

Cytunodd y Grŵp y byddai'n astudio'r model rhesymeg a'r cynllun gwaith ymhellach ar ôl y cyfarfod ac yn dychwelyd sylwadau dros e-bost.

**Cam Gweithredu 8: dosbarthu'r model rhesymeg a'r cynllun gwaith i roi sylwadau arnynt.**

Daeth y cyfarfod i ben am 13:12. Cynhelir y cyfarfod nesaf am 11am, 21 Hydref 2019.